

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Hawliau mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- 1 Archwilydd Cyffredinol Cymru (Yr Archwilydd Cyffredinol) yw archwilydd ac arolygwr statudol cyrff y sector cyhoeddus ledled Cymru. Er mwyn gweithredu ei swyddogaethau archwilio ac arolygu yn effeithiol, mae ganddo hawliau statudol eang, yr un fath ag archwilydd sector cyhoeddus yng ngweddill y DU, i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cyrff y mae'n eu harchwilio a'u harolygu. Mae'r hawliau hyn yn allweddol er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i gael eu dal i gyfrif am eu defnydd o arian cyhoeddus. Felly, mae'n hynod bwysig bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu defnyddio ei hawliau mynediad yn ddirwystr. Mae rhwystrau o'r fath yn ychwanegu at gostau archwilio ac yn anghyfreithlon; mewn llawer o achosion bydd yn achos o dor-cyfraith.
- 2 O ystyried pwysigrwydd hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a staff a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau eu bod yn mynd ati'n drwyadl i fynd i'r afael ag unrhyw rywstr. Serch hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilyddwyr sy'n gweithredu ar ei ran bob amser yn ystyried a yw amseriad unrhyw gais am fynediad yn rhesymol ac yn ystyried cymesuredd mynediad pan fo'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol.
- 3 Mae'r daflen hon yn egluro'r hawliau mynediad ac yn mynd i'r afael â rhai cwestiynau cyffredin cysylltiedig. Mae hefyd yn nodi pa ystyriaethau fydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilyddwyr sy'n gweithredu ar ei ran yn rhoi sylw iddynt wrth fynd ati i ymarfer a gorfodi'r cyfryw hawliau.

Y Fframwaith Statudol

- 4 Mae hawliau mynediad statudol at ddogfennau a gwybodaeth yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 5 Mae'r Ddeddf hon yn darparu hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithredu llawer o'i swyddogaethau craidd, gan gynnwys:
 - archwiliadau statudol o gyfrifon (ac eithrio mewn perthynas ag archwilio cyrff llywodraeth leol - gweler isod); ac
 - archwiliadau gwerth am arian ac astudiaethau gwella (ac eithrio mewn perthynas ag astudiaethau o gyrff llywodraeth leol – gweler isod).
- 6 Mae paragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan bod gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl mynediad at bob dogfen sy'n ymwneud â 'person perthnasol' sy'n ymddangos i'r Archwilydd Cyffredinol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni unrhyw rai o'r swyddogaethau hyn.
- 7 Yng nghyd-destun archwilio cyfrifon, ystyr 'person perthnasol' yw y person y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef (e.e. Gweinidogion Cymru) neu'r person sy'n paratoi'r cyfrifon i'w harchwilio. Yng nghyd-destun archwiliadau neu astudiaethau, y 'person perthnasol' yw'r person y mae'r astudiaeth neu'r archwiliad yn ymwneud ag ef.
- 8 Os cred yr Archwilydd Cyffredinol fod gan unrhyw berson wybodaeth yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau'r Archwilydd, mae paragraff 17(3) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryw berson roi i'r Archwilydd unrhyw gymorth, gwybodaeth ac eglurhad sy'n angenrheidiol ym marn yr Archwilydd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryw bersonau ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol gan ddarparu unrhyw gyfleuster y gellir yn rhesymol ofyn amdano, megis gofod i weithio a mynediad i systemau cyfrifiadurol. Mae'r hawliau mynediad yn berthnasol i gyflenwyr y person perthnasol ac i'r rhai sy'n derbyn grantiau gan y person, ymhlith eraill.

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

- 9 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn darparu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn iddo gynnal archwiliadau, astudiaethau a swyddogaethau eraill mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol. Mae Adran 52 y Ddeddf yn rhoi hawliau mynediad i'r Archwilydd Cyffredinol at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ofynnol iddo gyflawni'r swyddogaethau hyn.
- 10 Mae Adran 52(1) yn datgan bod gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl mynediad at bob dogfen sy'n ymwneud â chorff llywodraeth leol yng Nghymru sy'n ymddangos iddo ef yn angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.
- 11 Mae Adran 52(4) yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol fynnu bod person y tybia sy'n meddu ar wybodaeth yn rhoi i'r Archwilydd unrhyw gymorth, gwybodaeth ac eglurhad sydd, yn ei farn ef, yn angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae Adran 52(5) yn datgan mai ystyr gwybodaeth yw gwybodaeth sy'n ymwneud â chorff llywodraeth leol yng Nghymru y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau mewn perthynas ag ef o dan y Ddeddf.
- 12 Mae Adran 53 yn datgan bod person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad a osodir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 52(4), heb fod ganddo esgus rhesymol.
- 13 Mae Adran 64B o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn darparu y gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth leol neu gorff GIG Cymru neu unrhyw swyddog neu aelod o gorff o'r fath ddarparu i'r Archwilydd Cyffredinol neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran y cyfryw ddata (ac ar y cyfryw ffurf) y gall yr Archwilydd Cyffredinol neu'r person hwnnw yn rhesymol ofyn amdano er mwyn cynnal ymarferion paru data. Mae Adran 64B(3) yn datgan bod person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â gofyniad a gyflwynir gan yr Archwilydd Cyffredinol heb esgus rhesymol.



Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- 14 Mae Adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn darparu hawliau mynediad i adeiladau awdurdod gwella yng Nghymru i "arolygydd" sy'n gwneud gwaith o dan y weithdrefn asesu ac arolygu llywodraeth leol a grëwyd yn sgil y Mesur hwnnw. Mae hefyd yn caniatáu mynediad at unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r awdurdod hwnnw sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r arolygydd er mwyn iddo gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau arolygu. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arolygydd sy'n cynnal gwaith o dan y weithdrefn hon, felly hefyd bersonau sy'n gweithredu ar ei ran.
- 15 Mae gweithdrefn asesu ac arolygu llywodraeth leol yn cynnwys:
- archwiliadau gwella, gwybodaeth a chynllunio;
 - asesiadau gwella; ac
 - arolygiadau arbennig.
- 16 Mae Adran 26(3) yn caniatáu i arolygydd ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n meddu ar neu sy'n gyfrifol am unrhyw ddogfen sy'n ymwneud ag awdurdod gwella yng Nghymru roi iddo'r cyfryw wybodaeth neu eglurhad fel y gwêl yr Archwilydd Cyffredinol yn angenrheidiol.
- 17 Mae Adran 26(7) yn darparu bod yn rhaid i awdurdod gwella yng Nghymru ddarparu i'r arolygydd bob cyfleuster a phob gwybodaeth y gall yr arolygydd yn rhesymol ofyn amdanynt er mwyn cyflawni arolygiad neu asesiad.
- 18 Mae Adran 26(9) yn datgan bod person yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn gwarafun i rywun ddefnyddio unrhyw bŵer a roddir gan adran 26, neu os nad yw'n cydymffurfio â chais a gyflwynir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 26.

Cwestiynau cyffredin am hyd a lled pwerau archwilydwr

19 Yn aml, codir cwestiynau am hyd a lled hawliau mynediad. Er gwaethaf y ffaith na chaiff y mathau canlynol o wybodaeth eu datgelu fel rheol, os oes angen eu datgelu at ddibenion archwiliad neu arolygiad, bydd gan archwilydwr hawl mynediad at:

- wybodaeth gyfrinachol megis cyflwyniadau i weinidogion;
- gwybodaeth bersonol fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol;
- gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol;
- gwybodaeth bersonol a gwybodaeth bersonol sensitif a allai fel arall gael ei diogelu o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- gwybodaeth sy'n eiddo i drydydd parti; a
- ffeiliau electronig a systemau TG.

20 Yn y bôn, pryd bynnag y bo'r mynediad yn *angenrheidiol* er mwyn cyflawni swyddogaethau'r archwilydd o safbwynt yr archwilydd, bydd gan yr archwilydd hawl mynediad.

21 Ymhellach, os cred archwilydd bod angen copïo gwybodaeth neu gymryd gwybodaeth i ffwrdd at ddibenion archwilio neu arolygu, yna bydd ganddo hawl i wneud hyn.

22 Sefydlodd *Re Hurler-Hobbs* (1944) ac *R v Hurler-Hobbs, ex parte Simmons* (1945) yr egwyddor bod angen yr archwilydd i gael mynediad at ddogfennau perthnasol yn ymestyn y tu hwnt i ddogfennau'r corff sy'n destun archwiliad. Felly, mae hawliau mynediad yn cynnwys gwybodaeth sydd ym meddiant trydydd parti. Cydnabyddir hyn yn benodol yn Neddf 2006 trwy enghreifftiau anghyfyngol.

23 Nid yw Deddf Diogelu Data 2018 nac y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn atal datgelu gwybodaeth bersonol neu wybodaeth bersonol sensitif i'r Archwilydd Cyffredinol, os yw'r Archwilydd o'r farn bod mynediad at y wybodaeth honno'n angenrheidiol er mwyn gweithredu unrhyw rai o'i swyddogaethau. Y rheswm am hyn yw bod deddfwriaeth dros ddiogelu data yn caniatáu prosesu data personol a data personol sensitif os yw'r cyfryw waith prosesu hwnnw'n angenrheidiol er mwyn gweithredu swyddogaethau statudol. Yn benodol, mae erthygl 6(1)(c) ac (f) o'r GDPR yn darparu ar gyfer datgelu (a dulliau prosesu eraill) mewn perthynas â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a rhwymedigaethau personau sy'n dal gwybodaeth y bernir ei bod yn angenrheidiol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn yr un modd, o ran gwybodaeth am categorïau arbennig mae Erthygl 9(2)(g) yn darparu ar gyfer datgeliad o'r fath.

24 Yn yr un modd, gall hawliau'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu cyfiawnhad dros ymyrryd â hawl unigolyn i barch tuag at eu bywyd preifat a theuluol, o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a ymgorfforwyd yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dim ond os yw'r ymyrryd â'r hawl yn ymateb cymesur i angen yr archwiliad neu'r arolygiad y gellir cyfiawnhau'r ymyrryd. Fel y disgrifir isod, bydd archwilydwr sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cymesuredd unrhyw ddefnydd o hawliau mynediad pan fo hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd yn berthnasol.

Braint broffesiynol gyfreithiol

25 Braint broffesiynol gyfreithiol yw hawl person i beidio â datgelu i'r cyhoedd ei ohebiaeth gyda chynghorwyr cyfreithiol, naill ai mewn achosion barnwrol neu fel arall.

26 Mae hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys dogfennau sy'n destun braint broffesiynol gyfreithiol. Mae awdurdod ar gyfer hyn i'w weld yn *Parry-Jones v Law Society* (1968), fel y'i dehonglir gan *R (on the application of Morgan Grenfell & Co Ltd) v Special Commissioner* (2002). Mae'r ail achos a nodir yn dadlau nad yw braint broffesiynol gyfreithiol yn cael ei thorri pan fo corff yn gweithredu pwerau statudol er mwyn cael mynediad at ddogfen sy'n ddarostyngedig i'r fraint honno. Felly mae gan yr Archwilydd Cyffredinol yr hawl i gael mynediad at ddogfennau sy'n destun braint at ddibenion ei swyddogaethau archwilio ac adolygu statudol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymdrechu i warchod y fraint broffesiynol gyfreithiol hon, ac felly ni fydd yn datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd nac yn ei defnyddio at ddibenion amhriodol.

Mynediad yn amodol ar gytundeb

27 O bryd i'w gilydd, bydd cyrff a archwilir yn gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol arwyddo cytundeb yn nodi'r telerau a fydd yn sail i'w hawl i gael mynediad at wybodaeth. Cyfeirir at y rhain weithiau fel "cytundebau mynediad" neu "brotocolau mynediad rhwymo". Sut bynnag y'u disgrifir, mae'n anghyfreithlon i'r Archwilydd Cyffredinol arwyddo unrhyw gytundebau sy'n gwneud ei bwerau mynediad yn ddarostyngedig i amodau. Byddai gwneud hynny'n llesteirio disgrisiwn yr Archwilydd Cyffredinol i weithredu'r cyfryw bwerau fel y gwêl yn dda, a byddai hyn yn groes i egwyddorion cyffredinol cyfraith gyhoeddus.

28 Yn ogystal, mae trydydd partiön, megis actiwariaid, archwilwyr eraill a rheolwyr cronfeydd pensiwn, weithiau'n rhoi cyrff a archwilir dan bwysau i fynnu bod "cytundeb dim bai" (*hold harmless agreement*) yn cael ei arwyddo gan archwilydd cyn y bydd y corff a archwilir yn caniatáu mynediad at gyngor neu at adroddiadau'r trydydd parti hwnnw. Unwaith eto, mae'n anghyfreithlon i'r Archwilydd Cyffredinol arwyddo cytundebau o'r fath. Bydd hawl mynediad yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau'n effeithiol er nad yw wedi arwyddo cytundeb o'r fath, hyd yn oed os yw'r corff a archwilir dan rwymedigaeth gytundebol i sicrhau bod cytundeb yn cael ei arwyddo.



Dull yr Archwilydd Cyffredinol o weithredu a gorfodi ei hawliau mynediad


29 Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn datgan yn glir mai'r Archwilydd Cyffredinol (neu berson sy'n gweithredu ar ei ran) sydd i bennu a yw'r wybodaeth y gwneir cais amdani yn angenrheidiol ai peidio er mwyn gweithredu ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf neu'r Mesur perthnasol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr sy'n gweithredu ar ei ran yn rhoi sylw priodol i'r ystyriaethau canlynol wrth benderfynu a ddylid gorfodi eu hawliau mynediad.

Amseriad

30 Bydd archwilwyr yn penderfynu a yw amseriad eu cais yn rhesymol ai peidio. O dan rai amgylchiadau, hwyrach y bydd natur yr archwiliad neu'r arolygiad yn golygu bod angen i'r archwilydd gael mynediad i wybodaeth yn ddi-oed, a heb roi rhybudd i'r corff a archwilir, er enghraifft, mewn achos honedig o dwyll. Bryd arall, ni fydd angen gweithredu ar frys, a bydd yr archwilydd fel rheol yn rhoi o leiaf bythefnos o rybudd bod angen y wybodaeth.

Cymesuredd

31 Pan mae'n amlwg y bydd mynediad i wybodaeth benodol yn golygu ymyrryd â hawl o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, bydd archwilwyr yn penderfynu a yw eu cais yn gymesur ai peidio. Mae hyn yn cynnwys pennu a yw'r manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r wybodaeth yn drech nag effaith negyddol casglu'r wybodaeth ar yr unigolyn. Fel rheol, os yw'r archwilydd yn credu bod mynediad yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r archwiliad neu'r arolygiad yn briodol, yna bydd mynediad yn gymesur. Mewn llawer o achosion bydd mynediad yn angenrheidiol os mai dyma'r unig ffordd o weithredu cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, hwyrach y bydd sefyllfaoedd lle byddai'r effaith negyddol yn sylweddol, a'r fantais i'r archwiliad neu'r arolygiad yn gymharol fach. Mewn achosion o'r fath, bydd archwilwyr yn ystyried a ellir lleihau cwmpas y gwaith yn gyfreithlon.



Gweithdrefn mewn achosion o rwystr

32 Os bydd unrhyw berson yn rhwystro'r archwilydd, yn y lle cyntaf bydd yr archwilydd yn egluro'r hawliau mynediad perthnasol ac unrhyw ddarpariaethau troseddol perthnasol, ac yna'n gofyn i'r person hwnnw gydweithio a chydymffurfio. Fodd bynnag, os yw'r rhwystro'n parhau, bydd staff y Gyfraith a Moeseg yn Swyddfa Archwilio Cymru'n ysgrifennu at y personau sy'n rhwystro neu, os yw'n berthnasol, at eu rheolwyr. Bydd staff y Gyfraith a Moeseg yn Swyddfa Archwilio'n amlinellu'r gyfraith ac yn egluro os na chaniateir mynediad o fewn cyfnod penodol (wythnos fel rheol, ond gall fod yn fyrrach os yw'n wirioneddol angenrheidiol) yna bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gofyn i gyfreithwyr gychwyn achos cyfreithiol i orfodi'r hawliau mynediad. Os na chaniateir mynediad erbyn y terfyn amser, yna bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cychwyn achos cyfreithiol. Yn ogystal â'r wybodaeth, yr eglurhad, y cymorth neu'r cyfleuster ac ati y mae'n ofynnol eu darparu, bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn mynd ati i adennill y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos cyfreithiol.

Manylion cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol neu archwilwyr penodedig, ffoniwch **029 2032 0500** a gofyn am gael siarad ag aelod o Dîm y Gyfraith a Moeseg neu anfonwch e-bost i **info@wao.gov.uk** a nodi bod yr e-bost at sylw **Tîm y Gyfraith a Moeseg**.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

